Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

JONES, WILLIAM JENKYN (1852 - 1925), cenhadwr dros y Methodistiaid Calfinaidd yn Llydaw

Enw: William Jenkyn Jones
Dyddiad geni: 1852
Dyddiad marw: 1925
Priod: Fanny Jones (née Wilhelm)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cenhadwr dros y Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Evan Lewis Evans

Ganwyd 29 Mawrth 1852 yn y Ceinewydd, Sir Aberteifi. Addysgwyd ef yng Ngholeg Normal Bangor ac yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, a bu'n ysgolfeistr yn Ystradgynlais. Ordeiniwyd ef yn 1882 i faes y genhadaeth yn Llydaw. Bu'n llafurio am 40 mlynedd o'r ganolfan yn Quimper, prifddinas Finisterre a chanolfan hefyd i'r Pabyddion. Er ei fod yn wynebu anawsterau na ellid mo'u concro, llwyddodd i fod o ddylanwad mawr trwy rannu copïau o'r Ysgrythur a thraethodau crefyddol. Bu ei frawd, Evan Jones, yn ei gynorthwyo am gyfnod. Cyhoeddodd emyniadur yn iaith Llydaw, *Telen ar Cristen*. Gyda'r athro Le Braz cyfieithodd lyfr Genesis yn Llydaweg. Etholwyd ef yn aelod o'r Société Archéologique. Priododd Fanny Wilhelm. Yn 1922 rhoddwyd iddo radd M.A. Prifysgol Cymru, 'er anrhydedd.' Bu farw 10 Chwefror 1925.

Awdur

Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans , (1898 - 1978)

Ffynonellau

Y Cenhadwr, iv, rhif 3, 41

J. Hughes Morris, *Ein Cenhadaeth Dramor â€“ Eglwys Bresbyteraidd Cymru*, 98-9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16945196

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Evans, E. L., (1953). JONES, WILLIAM JENKYN (1852 - 1925), cenhadwr dros y Methodistiaid Calfinaidd yn Llydaw. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-JEN-1852

Copïo'r cliptwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government